Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

26 Ebrill 2019

Annwyl Ken,

Ysgrifennais atoch yn gynharach eleni yn gofyn am gadarnhad ynghylch eich bwriad i gyhoeddi diweddariad o'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol. Yn eich ymateb dyddiedig 8 Chwefror 2019, ysgrifenasoch "Rwy'n cynnig cyhoeddi fersiwn 2018 o'r Cynllun Cenedlaethol ym mis Chwefror 2019."
Gan ei bod bellach yn fis Ebrill, mae'n amlwg bod y dyddiad hwn wedi mynd heibio. A oes gennych ddyddiad cyhoeddi mwy cadarn erbyn hyn?

Yn yr un llythyr, gwnaethoch hefyd gyhoeddi linc at lythyr cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 31 Mawrth. Gan fod y cylch gwaith penodol hwn bellach wedi dod i ben, mae'n debyg y bydd un newydd nas cyhoeddwyd eto (o 24 Ebrill). Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau bod gan Drafnidiaeth Cymru lythyr cylch gwaith bob amser ac y byddwch yn darparu linc at y fersiwn ddiweddaraf.

Cofion cynnes,



Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565